Rhifyn 36
gan Gwaith Maes

Wrth geisio meddwl am thema ar gyfer gwe-rifyn diweddaraf Cymdeithas Gwaith Maes, roedd yn bwysig dewis pwnc a fyddai'n berthnasol ac yn dymhorol ac felly pa well esgus (os oedd angen esgus yn y lle cyntaf) i dreulio oriau o flaen y teledu i weld pa bynciau a fyddai'n addas i'w cynnwys. Anodd iawn oedd dianc rhag yr holl raglenni am bwysigrwydd bwyta'n iach ynghyd a'r straeon am y berthynas glos sydd yna rhwng amaethyddiaeth a'r bwyd yr ydym yn ei fwyta bob dydd. Dyma a'n sbardunodd i seilio'r rhifyn yma o Gwaith Maes a'r 'Fwyd a Ffermio'. **Gobeithio y cewch flas ar y darllen!**

Os cofiwch dros gyfnod y Nadolig cafodd disgyblion Ysgol San Siôr, Llandudno eu gwahardd am ganu carolau'r Nadolig yn rhy uchel mewn canolfan siopa leol. Ers y digwyddiad anffodus hwnnw bu i'r Prifathro, Ian Jones 'ddeor' ar syniad a fyddai'n codi calon eu holl ddisgyblion. Darllenwch am hanes cyffrous 'Ieir San Siôr' yn y rhifyn yma o Gwaith Maes.

Be gawsoch i frecwast y bore 'ma. Coffi a thost ges i, ac mae llawer yn dweud mai 'brecwast' yw'r pryd bwyd pwysicaf y dydd. Cyfle i'r corf ail-egino ar ôl bod yn segur drwy'r nos. Darllenwch erthygl Meira Shakespear i weld sut y medrwch greu astudiaeth syml o darddiad y bwyd yr ydych yn ei fwyta bob bore, sut cychwynnodd eu taith o'r fferm i'ch oergell neu'r cwpwrdd bwyd?

Yn draddodiadol mae yna berthynas agos rhwng 'bwyd' a 'ffermio' ac yma yng Nghymru, mae llawer ohonom wedi clywed am y dywediad, Môn, Mam Cymru. Mae'r dywediad yma yn tarddu o bwysigrwydd Ynys Môn fel canolfan tyfu grawn yn yr Oesoedd Canol. Wrth ddarllen erthygl swyddogion Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn cawn hanes y berthynas barhaol sydd yna rhwng amaethyddiaeth a gwarchod tirlun unigryw'r ynys.

Mae amaethyddiaeth wedi bod yn bwysig iawn yma yng Nghymru ers canrifoedd. Mae erthygl Angharad Williams yn edrych ar olion a thystiolaeth amaethu sy'n weledol o'r awyr. A fyddwch chi yn medru dadansoddi'r lluniau?

Mae cynnal cynefinoedd amaethyddol traddodiadol hefyd yn bwysig wrth warchod rhai o'n hadar mwyaf prin. Mae dwy erthygl yma am adar gaiff eu heffeithio gan ffermio. Mae erthygl Mark Hughes yn edrych ar y Grugiar Ddu - aderyn prin sy'n byw yn ucheldir Cymru ac un sydd yn dibynnu ar gynefin o rug. Mae erthygl John Green yn edrych ar y ffordd mae ffermio wedi cael effaith ar y nifer o adar sydd i'w gweld yng Nghymru a'r ffordd y gall newid hinsawdd gael effaith pellach ar hyn. Efallai bydd can unigryw'r gog yn mynd yn fwy prin dros y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i hyn. Pryd glywsoch chi'r Gog ddiwethaf? (*nodyn golygyddol* – clywais y Gog ar ddydd Llun y 5ed o Fai ger Capel Curig. Roeddwn wedi gwirioni fod y gwanwyn wedi cyrraedd 'go iawn' rwan)

Gobeithio bydd y darllen at ddant pawb, a chofiwch, os oes gennych chi erthygl neu brosiect difyr yr hoffwch ei rannu efo ni yma yn Gwaith Maes, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm er mwyn ei gynnwys yn y rhifyn nesaf.

Hwyl am y Tro!